Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penysarn

Penysarn
Ynys Môn
LL69 9AZ

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Penysarn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Penysarn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 64 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 56 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 9.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 21.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 39.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/10/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/03/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd fel cwrteisi, parch a thegwch i bob plentyn, yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad synhwyrol, ac yn ystyried cyfraniad pawb er mwyn darparu addysg gyflawn i'r disgyblion. Mae staff yn ymrwymedig i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd dysgu cartrefol a chefnogol.

Mae staff yn arddel yr iaith Gymraeg yn fwriadus sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad llafar disgyblion o oedran cynnar. Er hyn, mae disgyblion yn dueddol o droi at y Saesneg i gyfathrebu â'i gilydd yn ystod sesiynau dysgu.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu profiadau dysgu a chwarae ysgogol sy'n cefnogi datblygiad lles ac addysgol disgyblion yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu medrau darllen Cymraeg yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir. Er hyn, mae cyfleoedd bwriadus i gefnogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn gyfyngedig. Mae medrau mathemateg a digidol disgyblion yn datblygu'n gadarn.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a chymdeithasol yn fedrus, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu lles emosiynol. Maent yn cyfrannu syniadau ac adeiladu ar waith ei gilydd yn hyderus. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac i gydweithio i ddatrys heriau dysgu drwy themâu addas.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella. Mae athrawon yn defnyddio tystiolaeth o ddysgu'r disgyblion i fonitro cynnydd. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i rannu'r arferion mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol, er enghraifft gyda dulliau cyflwyno adborth a chynllunio.

Mae arweinwyr yn dechrau casglu barn disgyblion a rhieni i helpu i wella, ac mae'r pennaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau hunanwerthuso wedi'u datblygu'n llawn.

Mae rhieni'n falch fod eu plant yn mynychu ysgol ofalgar sy'n chwarae rhan ganolog ym mywyd y gymuned leol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Datblygu medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion

A2 Datblygu gweithdrefnau hunanwerthuso ymhellach i gynnwys rhannu arfer dda ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol sy'n rhan greiddiol o'i chymuned leol. Mae gweledigaeth y pennaeth yn hybu datblygiad disgyblion sy'n hapus ac yn barod i ddysgu mewn awyrgylch diogel.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol ac mae eu hymagweddau proffesiynol yn gosod esiampl dda i ddisgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion disgyblion ac maent yn eu cefnogi i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r gweithgareddau dysgu yn ymateb yn fwriadus i anghenion disgyblion. Mae staff yn cefnogi disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r ardaloedd dysgu yn cynnwys nifer o weithgareddau bwriadus sy'n cyfannu'n effeithiol at ddatblygu medrau cymdeithasol a chydweithio disgyblion. Mae gan yr ardaloedd allanol ystod o offer deniadol a phwrpasol sy'n cefnogi'r disgyblion wrth ddatblygu eu lles, eu medrau corfforol a chymdeithasol a'u gallu i ddatrys problemau.

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm pwrpasol sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn briodol ac wedi ei seilio'n gadarn yn yr ardal leol. Mae profiadau dysgu'n cynnwys syniadau disgyblion yn fwriadus sy'n ennyn eu diddordeb a'u perchnogaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae medrau llafar mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith. Mae disgyblion yn dueddol o droi at y Saesneg i gyfathrebu â'i gilydd yn ystod sesiynau dysgu. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Er hyn, mae cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn gyfyngedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau mathemateg. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn o oedran cynnar. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teclynnau pwrpasol i recordio gwaith llafar y disgyblion hynaf wrth iddynt gynhyrchu gwefan i rannu hanes Pont Menai.

Mae staff yn darparu profiadau cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu ystod o fedrau creadigol yn bwrpasol. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio pensiliau yn gelfydd i amrywio tôn a lliw i lunio portread o Grace Darling. Yn y gweithgareddau Ysgol Goedwig, maent yn defnyddio eu dychymyg a'u medrau creadigol yn fedrus i greu gwrthrychau o bren gydag amrywiaeth o ddefnyddiau naturiol.

Mae athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu sy'n cefnogi disgyblion i adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella o fewn eu dysgu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i bennu'r camau dysgu nesaf i ddisgyblion. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan staff ac yn gwella eu gwaith yn fwriadus. Mae llawer ohonynt yn dyfalbarhau ac yn chwilio am ddull arall i lwyddo pan fyddant yn wynebu anawsterau. Er hyn, nid yw'r dulliau addysgu cryfaf yn ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio 'n annibynnol, mewn parau ac o fewn grwpiau bychain. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cydweithio disgyblion wrth iddynt drafod a datblygu eu syniadau. Maent yn cefnogi ei gilydd i oresgyn anawsterau a chydweithredu'n effeithiol. Un o rinweddau arbennig yr ysgol yw'r modd mae disgyblion yn dangos empathi at ei gilydd yn naturiol o fewn y ddarpariaeth gynhwysol. Mae'r disgyblion hynaf yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf yn gwbl naturiol wrth ddysgu.

Mae'r ysgol yn nghalon ei chymuned ac mae disgyblion yn chwarae rhan weithredol wrth blannu blodau yn y pentref a chymryd rhan mewn digwyddiadau fel Gorymdaith Gŵyl Ddewi. Mae'r profiadau'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu disgyblion i fod yn ddinasyddion aeddfed a chydwybodol sy'n arddangos gofal a pharch at eu hamgylchfyd.

Mae trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn effeithiol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod cefnogaeth yn amserol ac yn briodol. Mae staff yn cydweithio'n agos â rhieni a phartneriaethau allanol ac maent yn adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd. Mae'r gefnogaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar hyder disgyblion ac yn eu hybu i ymgysylltu'n llawn â'u dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae staff yn annog disgyblion i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol yn llwyddiannus ac yn sicrhau eu bod yn datblygu medrau arwain priodol ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau. Enghraifft dda o hyn yw dylanwad disgyblion ar ddewis adnoddau antur ar gyfer yr ardal awyr agored.

Darperir amgylchedd dysgu pwrpasol gan staff sy'n hyrwyddo lles a dysgu disgyblion yn dda. Er enghraifft, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ardal allanol fel y goedwig, mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd perthnasol i ymdawelu ac ymgysylltu ymhellach gyda'u dysgu. Mae bron bob un yn cael cyfleoedd pwrpasol yn ystod y diwrnod ysgol i ddatblygu eu medrau corfforol yn gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf, er enghraifft, yn datblygu medrau modur mân gwerthfawr wrth ddefnyddio siswrn yn annibynnol yn yr ardal creu. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu hyder a'u ffitrwydd corfforol o fewn ystod eang o gyfleoedd fel sesiynau nofio, dawnsio, cyfeiriannu a gemau pêl.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol o waith yr ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn ymgymryd ag ystod addas o weithgareddau monitro sy'n cefnogi dealltwriaeth briodol o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae trefniadau hunanwerthuso yn dechrau ystyried barn disgyblion a rhieni ar agweddau o fywyd yr ysgol. Mae athrawon yn cychwyn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso ansawdd yr addysgu a'r cwricwlwm i fonitro cynnydd disgyblion. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i rannu'r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol gan gynnwys dulliau cynnig adborth i ddisgyblion a chynllunio themâu.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant cadarnhaol sy'n cefnogi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus i staff. Er enghraifft, mae aelod staff wedi ymgymryd â'r rôl o arwain y flaenoriaeth lles sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at eu gwaith. Mae staff yn ymweld ag ysgolion lleol yn achlysurol, sy'n darparu cyfleoedd bwriadus i athrawon rannu eu profiadau ac arferion â gweithwyr eraill.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff i drafod lles ac addysg eu plant ac maent yn ymfalchïo fod eu plant yn mynychu'r ysgol gartrefol hon.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2026